

## **MA Addysg (Cymru) Cenedlaethol** **Ffurflen Gais Atodol**

Sicrhewch eich bod yn llenwi pob rhan berthnasol o'r Ffurflen Gais Atodol a bod eich ffurflen wedi'i chwblhau yn cael ei chyflwyno gyda'ch cais (bydd y Brifysgol o'ch dewis yn darparu arweiniad ar sut i wneud hyn). Ni allwn ystyried ceisiadau heb y Ffurflen Gais Atodol.

### **Rhan 1 (i'w chwblhau gan bob ymgeisydd)**

Enw Llawn	
Rhif y cais/myfyriwr	
Dyddiad geni	
Cyfeiriad e-bost (hwn ddylai fod eich prif gyfeiriad e-bost ac fe'i cofnodir ar eich cofnod CGA)	
Iaith astudio (Cymraeg/Saesneg)	
Rhif Cyfeirnod Athro (RhCA)	
Swydd a chyflogwr presennol	
Sector (Cynradd/Uwchradd/Arbennig ac ati)	
Dyddiad cwblhau sefydlu ANG	

### **Rhan 2. Datganiad Cymorth (pob ymgeisydd)**

Dylai hwn fod fel arfer gan eich Pennaeth neu uwch gydweithiwr/rheolwr perthnasol arall, ond gall hefyd fod gan berson priodol arall. Lle bynnag y bo modd, dylai hwn fod ar bapur pennawd Ysgol a'i lanlwytho ynghyd â'ch cais am gyllid.

Os gofynnir i chi gyflwyno datganiad o gefnogaeth fel rhan o'r brif broses ymgeisio ar gyfer y Brifysgol o'ch dewis, nid oes angen i chi lanlwytho hwn eto. Os nad yw'n ofynnol i chi lanlwytho datganiad cefnogaeth ar bwynt arall yn y broses dderbyn, dylech ei lanlwytho i'ch cais fel dogfen ychwanegol.

**Rhan 3. Ymgeiswyr o ysgolion partner AGA**

Os ydych chi'n ymgeisydd o ysgol bartner AGA, nodwch yma

**Rhan 4. Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)**

Rwy'n gwneud cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol (nodwch isod)

Ydw

Nac ydw

Os mai 'Ydw' yw eich ateb, gweler **Atodiad A** ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Rhan 5. Dynodi dewisiadau modiwl (pob ymgeisydd)**

At ddibenion cynllunio, nodwch eich dewisiadau modiwl arbenigol.

Nid yw nodi eich dewis yn eich ymrwymo i ymgymryd â'r modiwlau hyn.

Nodwch ba **DDAU** fodiwl 20 credyd ar y rhestr hon y byddech chi'n fwyaf tebygol o ddymuno eu hastudio. Bydd angen i chi ddewis un modiwl yn Nhyrnor 1 ac un modiwl yn Nhyrnor 2.

*Sylwer bod Sgiliau Ymchwil ac Ymholi Uwch yn orfodol ar gyfer pob myfyriwr.*

Cod Modiwl	Semester	Enw'r Modiwl	Nodwch eich dewis modiwl
<b>Tymor 1</b>			
EDM05	Cyfnod Medi-Ionawr	Iechyd Emosiynol, Iechyd Meddwl a Lles	
ED-M08	Cyfnod Medi-Ionawr	Archwilio Addysgeg	
ED-M09	Cyfnod Medi-Ionawr	Arfer Dosbarth Cynhwysol	
ED-M11	Cyfnod Medi-Ionawr	Arwain a Rheoli Gweithwyr Proffesiynol Addysg	
<b>Tymor 2</b>			
ED-M04	Cyfnod Ionawr-Mehefin	Dylunio a Gwireddu'r Cwricwlwm	
ED-M06	Cyfnod Ionawr-Mehefin	Cydraddoldeb ac Thegwch	
ED-M10	Cyfnod Ionawr-Mehefin	Arweinyddiaeth a Rheolaeth ADY	
ED-M12	Cyfnod Ionawr-Mehefin	Arwain Newid Sefydliadol	
<b>Tymhorau 2 a 3</b>			
ED-M01	Cyfnod Ionawr-Mehefin	Sgiliau Ymchwil ac Ymholi Uwch	Gorfodol ar gyfer pob myfyriwr

### **Ffurflen Gais Datganiad Rhannu Data (pob ymgeisydd)**

Lle mae lleoedd noddedig ar y rhaglen MA Addysg (Cymru) Cenedlaethol yn eich sefydliad dewis cyntaf wedi'u dyrannu'n llawn, er mwyn eich galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen MA Addysg (Cymru) Cenedlaethol a chael mynediad at gyllid Llywodraeth Cymru, rydym yn gallu trosglwyddo/rhannu'r manylion llawn a ddarperir ar eich ffurflen gais gydag aelodau eraill y bartneriaeth sydd â lleoedd wedi'u hariannu ar gael.

Nodwch isod a ydych chi'n hapus i ni rannu'ch cais gyda'r prifysgolion canlynol:

- |  |  |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Prifysgol Aberystwyth           | <input type="checkbox"/> Prifysgol Bangor              |
| <input type="checkbox"/> Prifysgol Metropolitan Caerdydd | <input type="checkbox"/> Prifysgol Abertawe            |
| <input type="checkbox"/> Prifysgol De Cymru              | <input type="checkbox"/> Prifysgol Y Drindod Dewi Sant |
| <input type="checkbox"/> Prifysgol Glyndŵr Wrecsam       |  |

Hefyd, caiff gwybodaeth ei rhannu â Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) er mwyn dilysu ceisiadau (e.e. rhif Athro/Athrawes a chwblhau cyfnod sefydlu). Mae hyn er mwyn cadarnhau eich statws Athro/Athrawes a'ch statws sefydlu ac i gadarnhau eich bod chi'n gymwys i ddilyn y rhaglen ac i gyflwyno cais am gyllid. Os nad ydych chi'n fodlon rhannu eich gwybodaeth ag EWC, yn anffodus, ni fydd modd i ni brosesu eich cais.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut y gall y Brifysgol ddefnyddio'ch data yn <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/about/data-protection-information/data-protection-notice-applicants/>.

Yr wyf wedi darllen ac yn cytuno i'r telerau fel y'u nodwyd yn y datganiad rhannu data.

Enw:

Dyddiad:

Gall ymgeiswyr ddewis optio allan o'r broses rhannu data ar unrhyw adeg trwy gysylltu â Prifysgol Aberystwyth ([derbyn-uwchraddedig@aber.ac.uk](mailto:derbyn-uwchraddedig@aber.ac.uk)).

## Atodiad A

### Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

Gall ymgeiswyr sydd â chymwysterau cydnabyddedig (e.e. TAR) a/neu brofiad proffesiynol sylweddol wneud cais i hynny gael ei ystyried yn erbyn y 60 credyd o fodiwlau sy'n cynnwys blwyddyn 1 o'r rhaglen. I fod yn gymwys i'w hystyried, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth briodol eu bod yn cwrdd â'r Deilliannau Dysgu ar gyfer y modiwlau, a restrir isod. Gweler y canllawiau ar sut i wneud cais a beth i'w gynnwys ym Pholisi RPL Addysg MA (Cymru).

Os ydych chi'n meddu ar TAR sy'n werth 60 o gredydau Lefel 7 (a enillwyd fel arfer yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf), nid oes angen i chi fapio eich dysgu proffesiynol yn erbyn y Deilliannau Dysgu isod.

Os ydych chi'n meddu ar Statws Athro Cymwysedig heb TAR, neu os yw'ch TAR yn cynnwys llai na 60 o gredydau ar Lefel 7 (h.y. enillwyd cyn 2019), dylech fapio eich dysgu proffesiynol a/neu eich dysgu drwy brofiad yn erbyn y Deilliannau Dysgu isod hyd at werth y credydau sydd ar goll (e.e. os yw'ch TAR yn rhoi 40 o gredydau ar Lefel 7 i chi, bydd angen i chi ddangos dysgu drwy brofiad sy'n werth 20 o gredydau yn unig). Dylech chi fapio yn erbyn y modiwl â'r Deilliannau Dysgu sy'n dangos eich dysgu proffesiynol a/neu eich dysgu drwy brofiad orau yn eich barn chi

### 1. Addysgeg ac Ymarfer

#### Deilliannau Dysgu Bwriedig y Modiwl

##### Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:

1. Dangos yn feirniadol ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad pob dysgwr yn eu gofal.
2. Gwerthuso effeithiolrwydd ystod o strategaethau dysgu ac addysgu yn feirniadol trwy dynnu ar dystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth a thystiolaeth ymchwil.
3. Dewis a chymhwyso'r strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol yn feirniadol er mwyn gwella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr.
4. Ymgysylltu â deialogau beirniadol am addysgeg ac ymarfer a thystiolaeth a rhannu eu harfer proffesiynol.

#### Myfyrdod a Thystiolaeth yr Ymgeisydd

## 2. Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

### Deilliannau Dysgu Bwriedig y Modiwl

#### Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:

1. Dadansoddi a syntheseiddio tystiolaeth empeiraidd berthnasol yn feirniadol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi.
2. Dadansoddi a syntheseiddio data profiad lleol, cenedlaethol ac ysgol yn feirniadol er mwyn cael mewnwelediadau i gyflawniad, cynnydd a chymhelliant plant yn y broses ddysgu, er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
3. Dangos gwybodaeth o'r cwricwlwm, addysgeg, asesu ac ymarfer cynhwysol sy'n briodol i'w Meysydd Dysgu a Phrofiad penodol.
4. Myfyrio'n feirniadol ar y modd y gellir strwythuro'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau i gefnogi dysgu effeithiol.
5. Dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu er mwyn datblygu fel ymarferydd myfyriol.

### Myfyrdod a Thystiolaeth yr Ymgeisydd

### 3. Ymarfer Cydweithredol a Phroffesiynol

#### Deilliannau Dysgu Bwriedig y Modiwl

##### Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:

1. Dadansoddi a myfyrio'n feirniadol ar ysgolion fel sefydliadau dysgu.
2. Gwerthuso diwylliant dysgu yn feirniadol sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus i gefnogi'r cwricwlwm.
3. Cymhwyso modelau damcaniaethol sy'n ymwneud â chasglu a dadansoddi data'n feirniadol mewn perthynas â gwella ysgolion.
4. Myfyrio'n feirniadol ar nodweddion ymarfer cydweithredol a phroffesiynol.
5. Gwerthuso'n feirniadol ddulliau ar gyfer codi safonau a gwella addysgeg a fydd yn gwella ansawdd **y dysgu a'r addysgu ar draws sefydliad.**

#### Myfyrdod a Thystiolaeth yr Ymgeisydd